| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **23 EBRILL, 2015** |
| **TEITL:** | **CWYNION AM WEITHREDIAD CYNLLUN IAITH CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD** |
| **AWDUR:** | **UWCH REOLWR DEMOCRATIAETH A CHYFLAWNI** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **CYFLWYNO DIWEDDARIAD I'R PWYLLGOR.** |

1. Yn ei gyfarfod diwethaf, cafodd y Pwyllgor hwn drafodaeth ar bryderon am weithredu diweddar gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn hysbysebu dwy swydd uwch reolaethol heb unrhyw ofynion am y gallu i siarad Cymraeg.

2. Yn dilyn penderfyniadau'r Pwyllgor, gohebwyd â Chartrefi Cymunedol Gwynedd a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Diben yr adroddiad hwn yw adrodd yn ôl ar yr ymateb i hynny.

3. O ran Cartefi Cymunedol Gwynedd, symudodd CCG ymlaen efo'r penodiadau. Bellach, deellir y penodwyd i'r ddwy swydd. Rydym wedi gofyn i CCG a ydynt yn fodlon i gyfarfod efo dirprwyaeth o'r Cyngor ond, hyd yma, ni lwyddwyd i drefnu dyddiad ar gyfer cyfarfod o'r fath.

4. O ran Comisiynydd y Gymraeg, er nad yw CCG, fel cymdeithas dai, yn ddarostyngedig i Ddeddf yr Iaith Gymraeg, 1993, o ran y gofyn i weithredu yn unol â Chynllun Iaith, mae'r Comisiynydd wedi bod mewn cyswllt â CCG ar y mater.

5. Mae gohebiaeth diweddar gan Swyddfa'r Comisiynydd wedi adrodd eu bod yn bwriadu cyhoeddi adroddiad ar yr "ymwneud diweddar rhwng y Comisiynydd a CCG fydd yn adroddiad ffeithiol yn bennaf (ond bydd y ddogfen hefyd yn cynnwys esboniad o hyd a lled grymoedd y Comisiynydd mewn perthynas â'r achos o dan sylw)." Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Comisiynydd ond, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r adroddiad yn gyhoeddus eto.

6. Yn y cyfamser, rwyf wedi codi mater mwy cyffredinol gyda Swyddfa'r Comisiynydd, sef y ffaith y bydd y Cyngor, oherwydd yr her ariannol y mae'n ei wynebu, yn gorfod edrych ar fodelau gwahanol o ddarparu a chomisiynu gwasanaethau o fewn y sir. Rydym wedi gwahodd Swyddfa'r Comisiynydd i fod yn rhan o drafodaeth buan ar y math o fodelau y gallai'r Cyngor fod yn eu hystyried ac a oes rhai 'ffurfiau i allanoli neu ddatganoli gwasanaethau' a fyddai'n fwy diogel o ran sicrhau cydymffurfiaeth â safonau iaith y Cyngor'.

7. Yn amodol ar farn y Pwyllgor, byddwn yn symud ymlaen i gynnal y trafodaethau hynny dros yr wythnosau nesaf ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar hynny.